*Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 74(5) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

---

# 2016 Rhif (Cy. )

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

# Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2016

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae Rhan 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu drwy Orchymyn eithriadau i'r hyn a olygir wrth "gwarchod plant" a "gofal dydd i blant".

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud o dan adran 19(4) a (5) o'r Mesur. Mae'n diwygio Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 ("Gorchymyn 2010") i estyn yr amgylchiadau pan fydd person, y byddai ei weithgarwch fel arall yn dod o fewn y diffiniad o "gwarchod plant" neu "gofal dydd i blant", wedi ei eithrio o'r diffiniad hwnnw ac felly nad yw'n ofynnol iddo gofrestru.

Mae erthyglau 3 a 4 o'r Gorchymyn hwn yn gwneud diwygiadau canlyniadol i erthyglau 2 ac 8 o Orchymyn 2010.

Mae erthygl 5 o'r Gorchymyn hwn yn eithrio darpariaeth gwasanaeth ieuenctid i bobl ifanc sydd wedi cyrraedd un ar ddeg oed o'r gofyniad i gofrestru.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.Gellir cael copi oddi wrth Gellir cael copi oddi wrth y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

*Gorchymyn Drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 74(5) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif (Cy. )

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 19(4) a (5) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(**1**).

Yn unol ag adran 74(5) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad cyn iddo gael ei wneud.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2016.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2016.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010

**2.** Mae Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010(**2**) ("Gorchymyn 2010")

(**1**) 2010 mccc 1.
(**2**) O.S. 2010/2839 (Cy. 233).

wedi ei ddiwygio yn unol ag erthyglau 3 i 5 o’r Gorchymyn hwn.

**3.** Yn erthygl 2 o Orchymyn 2010—

(a) yn lle “o dan wyth oed” rhodder “o dan ddeuddeng oed”;

(b) yn lle “yn yr erthyglau canlynol, 3 i 7.” rhodder “yn erthyglau 3 i 7 ac 16 o’r Gorchymyn hwn.”.

**4.** Yn erthygl 8 o Orchymyn 2010—

(a) yn lle “o dan wyth oed” rhodder “o dan ddeuddeng oed”;

(b) yn lle “yn yr erthyglau canlynol, 9 i 15” rhodder “yn erthyglau 9 i 16 o’r Gorchymyn hwn.”.

**5.**—(1) Ar ôl erthygl 15 o Orchymyn 2010 mewnosoder—

> □**16.**—(1) Nid yw person yn darparu gwasanaeth gwarchod plant neu ofal dydd os ac i’r graddau—
>
> (a) mai dim ond darparu gwasanaeth ieuenctid i bobl ifanc sydd wedi cyrraedd un ar ddeg oed y mae’r person; a
>
> (b) bod unrhyw ofal a ddarperir yn digwydd yn achlysurol mewn cysylltiad â darparu’r gwasanaeth ieuenctid hwnnw.□.

(2) Yn yr erthygl hon ystyr “gwasanaeth ieuenctid” (“*youth service*”) yw gweithgaredd o fath a restrir ym mharagraff (3).

(3) At ddibenion paragraff (2), y mathau o weithgaredd yw’r rhai—

(a) sy’n annog, yn galluogi neu’n cynorthwyo pobl ifanc sydd wedi cyrraedd un ar ddeg oed i gymryd rhan yn effeithiol:

(i) mewn gweithgareddau hamdden;

(ii) mewn addysg a hyfforddiant;

(iii) ym mywyd eu cymunedau; a

(b) pan na fo’n ofynnol i’r person ifanc dalu am gymryd rhan mewn gweithgaredd o’r fath neu pan fo’n ofynnol iddo dalu swm nominal yn unig am wneud hynny.”.

Y Gweinidog Cymunedau a Threchi Tlodi, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad